# Polisi ar gyfer Darparu Pecynnau Cinio

Yr Adran Addysg a Phlant

Cyhoeddwyd Mawrth 2024



sirgar.llyw.cymru/addysg

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys**

Cyflwyniad ........................................................ 2

Gofynion ar gyfer Pecynnau Cinio ..................................... 2

Bwydlen Pecynnau Cinio Safonol.................................... 3

Gofynion Deietegol Arbennig ............................................ 3

Cynaliadwyedd .................................................................... 4

Manylion Cyswllt ................................................. 4

# Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi llunio'r polisi hwn i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu os oes angen pecynnau cinio ar gyfer ymweliadau addysgol fel teithiau ysgol. Bydd y polisi hefyd yn sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws pob ysgol sydd hefyd yn ystyried gwahanol ofynion dietegol disgyblion.

# Gofynion ar gyfer Pecynnau Cinio

Gall Rhieni/Gwarcheidwaid sydd â hawl i brydau ysgol am ddim i'w plentyn/plant (i gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd) ofyn am becyn cinio am ddim ar gyfer unrhyw ymweliadau addysgol a drefnir gan yr Ysgol pan fydd disgyblion i ffwrdd o safle'r ysgol dros amser cinio.

Oherwydd natur y bwyd a ddarperir mewn pecyn bwyd, mae'n hanfodol bwysig bod y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Cyfraith Natasha yn nodi bod yn rhaid i ni ddarparu rhestr gynhwysion lawn ac amlygu gwybodaeth am alergenau ar yr holl fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Nid oes angen labelu bwyd sy'n cael ei archebu ymlaen llaw neu sy'n cael ei archebu "o bellter" e.e. drwy Parentpay. Mae'n rhaid darparu gwybodaeth am alergenau, y mae'n rhaid iddi hefyd fod yn hygyrch i rieni pan fydd pecyn cinio yn cael ei archebu. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon, gofynnir i ysgolion a rhieni nodi y gall y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion ond ddarparu pecyn cinio sydd wedi'i archebu ymlaen llaw o fewn **<u>7 diwrnod gwaith</u>** cyn y diwrnod pan fydd angen y cinio.

Gellir archebu pecynnau cinio drwy'r dulliau canlynol:

- **Eich Cyfrif ParentPay (www.parentpay.com)**
  Cyfrifoldeb yr Ysgol fydd cysylltu â'r Tîm Arlwyo Ysgolion i ofyn bod ein bwydlen Pecyn Cinio ar gael i rieni archebu ymlaen llaw drwy ParentPay. Gan mai **<u>7 diwrnod gwaith</u>** yw'r terfyn ar gyfer archebu pecyn cinio, gofynnwn i ysgolion gysylltu â ni cyn gynted ag y byddant yn dechrau trefnu'r daith, gan ganiatáu i rieni weld y fwydlen drwy ParentPay am o leiaf 14 diwrnod gwaith.

- **Pecyn cinio y gofynnwyd amdano drwy ffurflen yr ysgol**
  Os na allwch archebu eich pecyn cinio ymlaen llaw drwy eich cyfrif ParentPay, cysylltwch â'r ysgol i weld a all roi ffurflen archebu ymlaen llaw i chi; rhaid archebu pecyn cinio **<u>7 diwrnod gwaith</u>** cyn y daith.

**Ymwadiadau Pwysig:**

- **Nid ydym yn gallu darparu pecynnau cinio yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i archebu ymlaen llaw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn gwastraffu cyn lleied o fwyd â phosibl ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ofynnol.**

- **Os caiff ymweliadau addysgol eu canslo ar fyr rybudd, bydd pecynnau cinio sydd wedi cael eu harchebu a'u paratoi yn cael eu gweini i ddisgyblion os ydynt yn aros yn yr ysgol, er mwyn osgoi gwastraff bwyd.**

- **Bydd gofyn i ysgolion unigol wneud eu trefniadau eu hunain i ddod o hyd i ddigon o fagiau/bocsys oer ac ati ar gyfer ymweliadau addysgol yn dibynnu ar nifer y pecynnau cinio sydd eu hangen.  Bydd hyn yn sicrhau y gellir cynnal pecynnau cinio ar y tymheredd cywir cyn iddynt gael eu bwyta.**

# Bwydlen Pecynnau Cinio Safonol

Rhaid i gynnwys pecynnau cinio a gyflenwir gan y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion fodloni'r Safonau Bwyd a Maeth lleiaf ar gyfer prydau ysgol sy'n golygu bod yn rhaid i ni gynnig o leiaf un dogn o salad/llysiau ac un dogn o ffrwythau y dydd.  Rydym hefyd yn ystyried pa fwydydd y gellir eu darparu, sut maent yn cael eu storio nes eu bod yn cael eu bwyta yn ystod amser cinio.

Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd y fwydlen ginio ganlynol ar gael ym mhob ysgol:

- Brechdan ham neu gaws wedi'i wneud yn ffres
- Ffyn Ciwcymbr
- Dogn o ffrwythau ffres
- Picen ar y maen
- Potel o ddŵr

**Ymwadiad Pwysig:**

- **Os nad yw'n bosibl darparu'r fwydlen cinio pecyn uchod (e.e. os yw teithiau yn gadael safle'r ysgol cyn amser agor ein cegin) darperir 'Bag Byrbryd' i ddisgyblion a fydd yn cynnwys yr eitemau canlynol:**
  - **Iogwrt Amgylchynol neu Bwdin (a llwy tafladwy)**
  - **Dogn o ffrwythau ffres**
  - **Picen ar y maen**
  - **Potel o ddŵr**

# Gofynion Deietegol Arbennig

Os nad yw eich plentyn/plant fel arfer yn cael cinio ysgol, ond bod angen pecyn cinio arno ar gyfer ymweliad addysgol, mae'n hanfodol bwysig bod rhieni'n hysbysu'r ysgol os oes gan eu plant unrhyw ofynion dietegol arbennig, gan gynnwys alergeddau ac anoddefiadau bwyd.

Oherwydd y cymhlethdodau o ran rhai dietau meddygol rhagnodedig, efallai y bydd angen i ni gynnig bwydlen ychydig yn wahanol i'r disgyblion hynny sydd â gofynion dietegol arbennig.  Nid tynnu sylw at ddisgybl unigol na'i wahaniaethu yw ein bwriad. Ein

nod yw sicrhau ein bod yn darparu pryd diogel o fwyd gan ddefnyddio'r cynhyrchion sydd ar gael i ni.

Bydd yr holl becynnau cinio arbennig yn cael eu paratoi gyda gofal a sylw dyladwy gan staff hyfforddedig. Mae bob amser risg y gellir trosglwyddo olion alergenau i eitemau o'n bwydlen wrth eu prosesu, eu storio neu eu paratoi yn ein ceginau. Am y rhesymau hyn ni allwn warantu bod unrhyw eitem ar unrhyw un o'n bwydlenni heb alergenau olrhain.

# Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn un o'n blaenoriaethau allweddol sy'n cynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio plastigau untro. Ein nod yw lleihau deunydd pacio a lle bo'n bosibl bydd y deunydd pacio y mae angen i ni ei ddarparu yn cael ei wneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y cynhyrchion rydym yn eu cynnwys yn y cinio e.e. Dŵr potel Brecon Carreg ac ati.

Cyfrifoldeb yr ysgol/rhiant/gwarcheidwad fydd gwaredu unrhyw wastraff o becynnau cinio a gyflenwir.

# Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod ofynion penodol eich plentyn yn fanylach, mae croeso ichi gysylltu â'n prif swyddfa:

E-bost: prydauysgol@sirgar.gov.uk
Ffôn: 01267 246537